Hawdd ei Ddeall

gofalwyr CYMRU

# Lwfans Gofalwyr

## Canllaw i ddweud beth mae Lwfans Gofalwyr yn ei feddwl



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gofalwyr Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o daflen wybodaeth 'Carers UK' sy'n cael ei galw'n **'Lwfans Gofalwyr'.**

**Wedi'i ddiweddaru Ebrill 2023** **www.carerswales.org**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.




Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae o mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 29**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gofalwyr Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.carersuk.org/wales

**E-bost:** info@carerswales.org

**Ffôn:** 029 2081 1370

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon .................................... 2**

**Cyflwyniad .................................... 4**

**Ynglŷn â Lwfans Gofalwyr .................................... 5**

Beth yw Lwfans Gofalwyr? .................................... 5

Pwy sy'n gallu cael Lwfans Gofalwyr? .................................... 5

**Lwfans Gofalwyr a budd-daliadau eraill .................................... 14**

Budd-daliadau'r person rydych chi'n gofalu amdano .................................... 16

Cofnod eich Yswiriant Gwladol a'ch Credyd Gofalwr chi .................................... 19

**Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwyr .................................... 21**

Pryd i wneud cais .................................... 21

Cael penderfyniad .................................... 23

**Beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn newid .................................... 25**

Cymryd seibiant .................................... 26

Mae'r person rydych chi'n gofalu amdano yn mynd i'r ysbyty .................................... 26

Mae'r person rydych chi'n gofalu amdano yn mynd i fyw i gartref gofal .................................... 27

Mae'r person rydych chi'n gofalu amdano yn marw .................................... 27

**Mwy o help .................................... 28**

**Geiriau anodd .................................... 29**

# Cyflwyniad





Mae'r ddogfen hon yn dweud:

- **Beth yw Lwfans Gofalwyr**
- **Pwy sy'n gallu cael Lwfans Gofalwyr**
- **Y rheolau ar gyfer Lwfans Gofalwyr**
- **Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwyr**



Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl sy'n byw yng **Nghymru** a **Lloegr**.




**Mae rhai newidiadau wedi cael eu gwneud i reolau Lwfans Gofalwyr oherwydd y coronafeirws.**




Ewch i'n gwefan ni i gael mwy o wybodaeth am y newidiadau hyn: http://www.carersuk.org/help-and-advice/coronavirus-covid-19



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen yr wybodaeth am y coronafeirws ar ein gwefan ni. **Dydy'r wybodaeth am y coronafeirws ddim yn hawdd ei deall**.

# Ynglŷn â Lwfans Gofalwyr

## Beth yw Lwfans Gofalwyr?



Arian i bobl sy'n rhoi gofal i berson anabl neu rywun sydd angen cefnogaeth am o leiaf 35 awr yr wythnos yw **Lwfans Gofalwyr**.



Mae Lwfans Gofalwyr yn £76.75 yr wythnos. Dyma'r prif fudd-dal ar gyfer gofalwyr.

## Pwy sy'n gallu cael Lwfans Gofalwyr?



Nid yw pob gofalwr yn gallu cael **Lwfans Gofalwyr.**

**Efallai y gallwch chi gael Lwfans Gofalwyr:**



- os ydych chi'n gofalu am rywun sy'n cael budd-daliadau arbennig i'r anabl




- os ydych chi'n gofalu am y person hwnnw am o **leiaf 35 awr** yr wythnos



- os ydych chi'n 16 mlwydd oed neu dros hynny



- os nad ydych chi mewn addysg llawn amser




- os nad ydych chi'n ennill dros **£139** yr wythnos



- **ac** os ydych chi'n byw yn y DU, ac rydych wedi bod yn y DU am amser neilltuol.



Rydyn ni wedi dweud beth yw'r pethau hyn ar y tudalennau nesaf.

## Mae'n rhaid eich bod chi'n gofalu am rywun sy'n cael budd-daliadau arbennig i'r anabl



Mae'n rhaid i'r person rydych chi'n gofalu amdano gael un o'r budd-daliadau hyn:



- **Lwfans Byw i'r Anabl** ar raddfa ganolig neu raddfa uwch ar gyfer **gofal personol**

> Mae person yn cael **gofal personol** pan fydd angen help arno â phethau fel ymolchi, gwisgo amdano, bwyta, mynd i'r tŷ bach a'i ddefnyddio a siarad am ei anghenion.

- **Taliad Annibyniaeth Personol** o Elfen Bywyd Bob Dydd
- **Lwfans Gweini** neu **Lwfans Gweini Cyson** yn ôl cyfradd sylfaenol diwrnod llawn sy'n cael ei dalu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog



Os nad yw'r person rydych chi'n gofalu amdano yn cael un o'r budd-daliadau hyn yn barod, efallai y gallan nhw wneud cais am un ohonyn nhw.

Am fwy o wybodaeth am hyn ewch i:
[www.carerswales.org/benefits](www.carerswales.org/benefits)

Neu gallwch chi ffonio **Gofalwyr Cymru** ar:
**029 2081 1370**

## Mae'n rhaid bod chi'n gofalu am y person hwnnw am o leiaf 35 awr yr wythnos




Mae'n rhaid bod chi'n rhoi o leiaf **35 awr** o ofal i **un person** bob wythnos. Gall hyn fod yn unrhyw amser o'r dydd neu'r nos.

Gallai'r 35 awr gael ei dreulio:



- yn helpu'r person gyda gofal personol
- yn gwneud pethau fel coginio a glanhau
- yn gwneud pethau iddyn nhw, hyd yn oed pan dydych chi ddim gyda nhw.



Chewch chi ddim adio'r amser rydych chi'n ei dreulio yn gofalu am wahanol bobl. Os ydych chi'n gofalu am fwy nag un  person, mae'n rhaid i chi ddewis am ofal pa berson rydych chi'n gwneud cais am  Lwfans Gofalwyr.



Os ydych chi a pherson arall ill dau yn rhoi 35 awr o ofal yr un i'r un person, **dim ond un ohonoch chi all wneud cais am Lwfans Gofalwyr**.



Dylai'r gofalwr arall fynd i gael cyngor ynghylch pa fudd-daliadau eraill y gallan nhw eu cael. Efallai y gallan nhw gael **Credyd Gofalwr**. Darllenwch **dudalen 20** am fwy o wybodaeth am hyn.




Os ydych chi'n gofalu am berson, sydd hefyd yn rhoi gofal i rywun, **gall y ddau ohonoch chi gael Lwfans Gofalwyr**.



Gall y ddau ohonoch chi gael Lwfans Gofalwyr hyd yn oed os ydych chi'n gofalu am eich gilydd.

## Mae'n rhaid i chi fod yn 16 mlwydd oed neu dros hynny



Gallwch chi wneud cais am Lwfans Gofalwyr hyd at dri mis **cyn** i chi droi'n 16 oed.




Ond chewch chi ddim o daliad y Lwfans Gofalwyr tan y diwrnod y byddwch chi'n 16 oed.

## Chewch chi ddim bod mewn addysg llawn amser



Rydych chi mewn addysg llawn amser:

- os yw'r lle rydych chi'n astudio yn dweud bod eich cwrs chi'n llawn amser
- os oes rhaid i chi wneud o leiaf 21 awr o astudiaeth yr wythnos.



Fyddwch chi **ddim** yn gallu cael Lwfans Gofalwyr nes eich bod chi **wedi gorffen** eich cwrs chi.

## Chewch chi ddim bod yn ennill dros £139 yr wythnos



Os ydych chi'n gweithio, allwch chi ddim cael Lwfans Gofalwyr os ydych chi'n ennill mwy na **£139** yr wythnos.

Mae hyn ar ôl i chi dalu:

- Treth Incwm
- Yswiriant Gwladol
- hanner cyfraniad i mewn i'ch pensiwn chi
- treuliau busnes (os ydych chi'n hunangyflogedig)
- rhywun i roi gofal i'r person rydych chi'n gofalu amdano fel arfer tra ydych chi'n gweithio. Neu roi gofal i blentyn dan 16 cyn belled â bod y person hwnnw ddim yn deulu.



Os ydych chi'n ennill gwahanol faint o arian bob wythnos, neu os ydych chi'n hunangyflogedig, byddwn ni'n edrych ar faint o arian rydych chi'n ennill dros amser arbennig.



Os ydych chi'n cael eich talu o **bensiwn gwaith preifat neu bensiwn personol** gallwch chi gael Lwfans Gofalwyr o hyd. **Nid** yw hyn yr un fath os ydych chi'n cael **Pensiwn y Wladwriaeth**.

Cyllid & Thollau EM

Os ydych chi'n ennill arian ac yn talu treth dylech chi ddweud wrth y swyddfa dreth os ydych chi'n cael Lwfans Gofalwyr. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar eich Lwfans Gofalwyr chi.



**I gysylltu â'r swyddfa dreth am gyngor:**

**Ffoniwch:** 0300 200 3300

**Ffoniwch ffôn testun:** 0300 200 3319



Mae'n iawn i chi gymryd seibiant o fod yn ofalwr. Darllenwch **dudalen 26** am fwy o wybodaeth am seibiannau.



Os ydych chi'n gwneud gwaith gyda thâl pan fyddwch chi'n cymryd seibiant o fod yn ofalwr, fydd yr arian rydych chi'n ei ennill ddim yn effeithio ar eich Lwfans Gofalwyr chi.

## Mae'n rhaid bod chi'n byw yn y DU a'ch bod chi wedi aros yn y DU am amser neilltuol



Mae'n rhaid bod chi:

- wedi bod ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon am o leiaf dwy flynedd allan o'r tair blynedd diwethaf



- yn byw yn y DU, Ynysoedd y Sianel, Gweriniaeth Iwerddon neu Ynys Manaw fel arfer.

Mae gwahanol reolau ar gyfer **ffoaduriaid** a'u teuluoedd nhw o wahanol fannau.



**Ffoadur** yw person sydd wedi'i orfodi i adael y wlad ble cafodd ei eni gan nad yw hi'n ddiogel.

Os ydych chi'n ffoadur gallwch chi gael cyngor am hyn o **Ganolfan AIRE:**

**Ffôn:** 020 7831 4276

**E-bost:** info@airecentre.org



Fel arfer ni allwch chi gael Lwfans Gofalwyr os oes **cyfyngiadau ar fewnfudwyr** arnoch chi.



**Mewnfudo** yw pan fydd person yn dewis byw mewn gwlad arall. Rheolau i bobl sydd wedi dewis byw mewn gwlad arall yw **cyfyngiadau ar fewnfudwyr**. Er enghraifft, does gennych chi ddim hawl i gael rhai budd-daliadau.




Gall gwneud cais am Lwfans Gofalwyr effeithio ar eich hawl chi i aros yn y DU. Efallai y gallwch chi gael cyngor am ddim ynglŷn â hyn o'ch **Canolfan Gyfraith** leol chi.




Ewch i www.lawcentres.org.uk am fwy o wybodaeth. Neu gallwch chi chwilio am gyngor yn: https://find-legal-advice.justice.gov.uk/

# Lwfans Gofalwyr a budd-daliadau eraill

**Fel arfer allwch chi ddim cael Lwfans Gofalwyr os ydych chi'n cael:**



- Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Mamolaeth
- Budd-dal profedigaeth neu fudd-dal gwraig weddw
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Gyfraniadau.



Ond eto gallwch chi wneud cais am **hawl sylfaenol**.

Mae **hawl sylfaenol** yn meddwl y buasech chi fel arfer yn cael Lwfans Gofalwyr os na fuasech chi'n barod yn cael budd-dal arall.



Er mwyn cael hawl sylfaenol mae'n rhaid i chi wneud cais am Lwfans Gofalwyr fel arfer. Edrychwch ar **dudalen 21** i gael gwybodaeth am y ffordd o wneud cais.



Gall hawl sylfaenol gynyddu'r swm o arian rydych chi'n ei gael o fudd-daliadau eraill.



Neu fe all e ganiatáu i chi gael budd-daliadau eraill am y tro cyntaf.




Fe ddylech chi edrych i weld a allwch chi gael hawl sylfaenol. Fe all e eich helpu chi i gael mwy o arian.



Os ydych chi'n cael budd-daliadau'n barod, dylech chi ddweud wrth y swyddfa budd-daliadau os ydych chi'n dechrau cael Lwfans Gofalwyr. Neu ddweud wrthyn nhw os ydych chi'n cael hawl sylfaenol.



Gallwch chi ddod o hyd i fanylion cyswllt y swyddfa budd-daliadau iawn ar lythyrau y maen nhw wedi'u hanfon atoch chi.

## Budd-daliadau'r person rydych chi'n gofalu amdano



**Nid** yw Lwfans Gofalwyr yn effeithio ar fudd-dal anabledd y person rydych chi'n gofalu amdano. Fydd o ddim yn effeithio ar eu Pensiwn y Wladwriaeth nhw os ydyn nhw'n cael un.




Mae'n **rhaid** i chi edrych i weld a fuasai Lwfans Gofalwyr yn effeithio ar fudd-daliadau y person rydych chi'n gofalu amdano. Ac fe ddylech chi feddwl yn ofalus a ddylech chi wneud cais amdano.

**Am fwy o wybodaeth, neu i gael help a chyngor, gallwch chi gysylltu â'r llinellau cymorth hyn:**

## Lwfans Gweini

**Ffôn:** 0800 731 0122

**Ffôn testun:** 0800 731 0317

## Lwfans Gofalwyr

**Ffôn:** 0800 731 0297

**Ffôn testun:** 0800 731 0317

## Lwfans Byw i'r Anabl

**Os cawsoch chi eich geni ar neu cyn 8 Ebrill 1948:**

**Ffôn:** 0800 731 0122

**Ffôn testun:** 0800 731 0317

**Os cawsoch chi eich geni ar ôl 8 Ebrill 1948:**

**Ffôn:** 0800 121 4600

**Ffôn testun:** 0800 121 4523

## Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth:

**Os ydych chi'n gwneud cais newydd:**

**Ffôn:** 0800 055 6688

**Ffôn testun:** 0800 023 4888

**Os ydych chi'n cael un o'r budd-daliadau hyn yn barod:**

**Ffôn:** 0800 169 0310

**Ffôn testun:** 0800 169 0314

## Credyd Pensiwn a Phensiwn

**Os ydych chi'n gwneud cais newydd:**

**Ffôn:** 0800 731 7898

**Ffôn testun:** 0800 731 7339

**Os ydych chi'n cael Pensiwn neu Gredyd Pensiwn yn barod:**

**Phone:** 0800 731 0469

**Ffôn testun:** 0800 731 0464

## Taliad Annibyniaeth Personol

**Ffôn:** 0800 121 4433

**Ffôn testun:** 0800 121 4493

## Credydau Treth

**Ffôn:** 0345 300 3900


**Ffôn testun:** 0345 300 3909

## Credyd Cynhwysol

**Ffôn:** 0800 328 9344

**Ffôn testun:** 0800 328 1344

# Cofnod eich Yswiriant Gwladol a'ch Credyd Gofalwr chi




Mae **Yswiriant Gwladol** yn arian sy'n cael ei dalu i bawb sydd:

- dros 16 mlwydd oed
- yn ennill dros £183 yr wythnos.



Mae cofnod eich **Yswiriant Gwladol** yn dweud faint o arian rydych chi wedi'i dalu tuag at **Yswiriant Gwladol**.



Mae Yswiriant Gwladol yn bwysig. Mae'n cael ei ddefnyddio i weld faint o arian y dylech chi ei gael o fudd-daliadau fel Pensiwn y Wladwriaeth.




Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth chi'n bwysig. Dyma'r arian y byddwch chi'n ei gael i fyw arno fo pan na fyddwch chi'n gallu gweithio oherwydd eich oed chi.



Os ydych chi'n cael Lwfans Gofalwyr byddwch chi'n cael **credydau** i amddiffyn cofnod eich Yswiriant Gwladol chi. Mae hyn er mwyn amddiffyn eich Pensiwn y Wladwriaeth chi.



Os na chewch chi Lwfans Gofalwyr efallai y gallwch chi, er hynny, gael **Credyd Gofalwr**. Mae hyn er mwyn helpu i amddiffyn cofnod eich Yswiriant Gwladol chi.




I gael Credyd Gofalwr mae'n rhaid i chi ofalu am rywun am o leiaf **20 awr** yr wythnos.

**Ac mae'n rhaid bod y person rydych chi'n gofalu amdano fel arfer yn cael un o'r budd-daliadau hyn:**



- Lwfans Byw i'r Anabl ar raddfa ganolig neu raddfa uwch ar gyfer gofal personol
- Taliad Annibyniaeth Personol o Elfen y Bywyd Bob Dydd
- Lwfans Gweini neu Lwfans Gweini Cyson yn ôl cyfradd sylfaenol diwrnod llawn sy'n cael ei dalu
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog



Os nad ydyn nhw'n cael un o'r budd-daliadau hyn efallai y gallwch chi, er hynny, gael **Credyd Gofalwr**.



I wneud cais am Gredyd Gofalwr ac i gael cyngor cysylltwch â'r **Uned Lwfans Gofalwyr**:

**Ffôn:** 0800 731 0297

**Ffôn testun:** 0800 731 0317

# Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwyr




Gallwch chi wneud cais ar-lein neu lawrlwytho ffurflen gais yn: www.gov.uk/carers-allowance/how-to-claim



Gallwch chi ofyn am becyn cais trwy ffonio'r **Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr:**

**Ffôn:** 0800 731 0297

**Testun neu 'typetalk'**: 0800 731 0317




I gael cyngor ynghylch gwneud cais cysylltwch â'ch canolfan gofalwyr leol chi: www.carersuk.org/localsupport

Neu gysylltwch â'n llinell gymorth '**Carers UK Helpline'**:

**Ffôn:** 0808 808 7777

Mae'r llinell ffôn hon ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am i 6pm.

**E-bost:** advice@carersuk.org

## Pryd i wneud cais




Gwnewch gais am Lwfans Gofalwyr cyn gynted ag yr ydych chi'n meddwl y dylech chi fod yn ei gael.



Gallwch chi **ôl-ddyddio** Lwfans Gofalwyr hyd at dri mis.




Mae hyn yn meddwl y gall hi fod yn bosibl i chi gael taliadau Lwfans Gofalwyr am y tri mis yr oeddech chi'n rhoi gofal cyn i chi wneud cais am Lwfans Gofalwyr.




Weithiau mae hi'n bosibl cael gwerth mwy na thri mis o Lwfans Gofalwyr fel tâl am yr amser cyn i chi wneud cais.



Gallwch chi gael Lwfans Gofalwyr wedi'i dalu o'r dyddiad y mae'r person rydych chi'n rhoi gofal iddo yn cael ei fudd-dal anabledd.



Ond mae'n rhaid i chi fod wedi gwneud cais am Lwfans Gofalwyr **o fewn tri mis** i'r dyddiad y cafodd y person rydych chi'n gofalu amdano y penderfyniad am ei fudd-dal anabledd.




Gallwch chi wneud cais am Lwfans Gofalwyr dri mis **cyn** i chi ddechrau rhoi gofal i rywun. Bydd e'n  barod pan fyddwch chi'n dechrau rhoi gofal.

## Cael penderfyniad



Byddwch chi'n cael llythyr i ddweud wrthych chi os byddwch chi'n cael Lwfans Gofalwyr. Bydd e'n  dweud pa ddyddiad y bydd eich Lwfans Gofalwyr chi'n  cychwyn.




Bydd hi'n ddefnyddiol i gadw'r llythyr hwn. Gallwch chi ei ddefnyddio fel prawf eich bod chi'n ofalwr.

## Os nad ydych chi'n hapus gyda'r penderfyniad



Os nad yw Lwfans Gofalwyr wedi cael ei roi i chi, gallwch chi ofyn i'r **Adran Gwaith a Phensiynau** edrych ar y penderfyniad eto.



Byddan nhw'n anfon llythyr atoch chi i ddweud a ydyn nhw'n dal i gytuno â'r penderfyniad.



Mae'n **rhaid** i chi ofyn iddyn nhw wneud hyn cyn i chi **apelio** i **Wasanaeth y Tribiwnlys**.

Mae **apêl** yn ffordd ffurfiol o ofyn i rywun edrych ar benderfyniad oherwydd eich bod am iddo gael ei newid.



Mae'n rhaid i chi anfon copi o'r llythyr gawsoch chi gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau** gyda'ch apêl chi.



Dylech chi wneud hyn mor gyflym ag sy'n bosibl. Dim ond hyn a hyn o amser sydd gennych chi.




I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â beth i'w wneud os nad ydych chi'n hapus â'r penderfyniad, ewch i [www.carersuk.org/appealsguide](http://www.carersuk.org/appealsguide).



Efallai y byddwch chi angen help i ddarllen yr wybodaeth ar ein gwefan ni. Dydy'r wybodaeth ar ein gwefan ni ddim yn hawdd ei deall.

# Beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn newid



Os bydd rhywbeth yn eich bywyd chi'n newid dylech chi ddweud wrth yr **Uned Lwfans Gofalwyr** cyn gynted â phosibl. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr nad ydych chi'n cael eich talu gormod.

Gallwch chi gysylltu ag **Uned Lwfans y Gofalwyr** ar:



**Ffôn:** 0800 731 0297

**Ffôn testun:** 0800 731 0317

Os ydych chi'n poeni ynghylch cael eich talu gormod gallwch chi gysylltu â ni am gyngor:



**Trwy e-bost**: advice@carersuk.org

**Neu dros y ffôn:** 0808 808 7777

Mae'r llinell ffôn hon ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9 am i 6 pm.

## Cymryd seibiant



Cewch chi gymryd hyd at bedair wythnos i ffwrdd o ofalu am bob 26 wythnos o roi gofal.



Mae hyn yn meddwl y byddwch chi'n dal i gael Lwfans Gofalwyr yn ystod eich amser chi i ffwrdd.  Byddwch chi'n dal i gael y tâl hwn cyn belled ag yr ydych wedi rhoi gofal:

- am o leiaf 35 awr yr wythnos
- am o leiaf 22 wythnos.




Os oes arnoch chi angen mynd i'r ysbyty gallwch chi gael Lwfans Gofalwyr am hyd at 12 wythnos. Byddwch chi'n cael y tâl hwn cyn belled ag yr ydych wedi rhoi gofal:

- am o leiaf 35 awr yr wythnos
- am o leiaf 14 wythnos cyn i chi fynd i'r ysbyty.

## Mae'r person rydych chi'n gofalu amdano yn mynd i'r ysbyty



Os yw'r person rydych chi'n gofalu amdano yn mynd i'r ysbyty gallwch chi gael Lwfans Gofalwyr am hyd at 12 wythnos. Neu gallwch chi ei gael nes bod eu budd-dal anabledd nhw'n dod i ben.



Os ydych chi’n dal i roi 35 awr o ofal yr wythnos pan fydd o yn yr ysbyty byddwch chi’n dal i gael Lwfans Gofalwyr nes bod eu budd-dal anabledd nhw’n dod i ben.

## Mae’r person rydych chi’n gofalu amdano yn mynd i fyw i gartref gofal



Os yw’r person rydych chi’n gofalu amdano yn mynd i fyw i gartref gofal byddwch chi’n cael Lwfans Gofalwyr dim ond:

- Os ydych chi’n dal i roi 35 awr o ofal yr wythnos iddo
- Os yw’r person rydych chi’n gofalu amdano yn dal i gael eu budd-dal anabledd nhw.




Fel arall bydd eich Lwfans Gofalwyr chi, ac unrhyw fudd-daliadau eraill rydych chi’n eu cael oherwydd eich bod yn ofalwr, yn dod i ben o fewn pedair i wyth wythnos.

## Mae’r person rydych chi’n gofalu amdano yn marw




Os yw’r person rydych chi’n gofalu amdano yn marw, gallwch chi fel arfer gael Lwfans Gofalwyr hyd at wyth wythnos ar ôl hynny.



Os ydych chi’n cael arian o fudd-daliadau eraill oherwydd Lwfans Gofalwyr, byddwch chi’n dal i gael yr arian hwnnw am hyd at wyth wythnos hefyd.

# Mwy o help




Mae llawer o wybodaeth ar ein gwefan ni:
www.carersuk.org/wales

Am **help a chyngor** ewch i:
www.carersuk.org/wales/help-and-advice

I ddod o hyd i fudiadau gofalwyr ble rydych chi'n byw ewch i:
www.carersuk.org/help-and-advice/get-support/local-support

Rydyn ni yma i chi. Gallwch chi gysylltu â ni:

**Gofalwyr Cymru**

**Ffôn:** 029 2081 1370

**E-bost:** info@carerswales.org

**Carers UK**

**Ffôn:** 0808 808 7777

Mae'r llinell ffôn hon ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9 am i 6pm.

**E-bost:** advice@carersuk.org

# Geiriau anodd

## Apêl

Mae apêl yn ffordd ffurfiol o ofyn i rywun edrych ar benderfyniad oherwydd eich bod chi am iddo gael ei newid.

## Cyfyngiadau ar fewnfudwyr

Mewnfudo yw pan fydd person yn dewis byw mewn gwlad arall. Rheolau i bobl sydd wedi dewis byw mewn gwlad arall yw cyfyngiadau ar fewnfudwyr. Er enghraifft, does gennych chi ddim hawl i gael rhai budd-daliadau.

## Gofal personol

Mae person yn cael gofal personol pan fydd angen help arno â phethau fel ymolchi, gwisgo amdano, bwyta, mynd i'r tŷ bach a'i ddefnyddio a siarad am ei anghenion.

## Ffoadur

Ffoadur yw person sydd wedi'i orfodi i adael y wlad ble cafodd ei eni gan nad yw'n ddiogel.

## Hawl sylfaenol

Mae hawl sylfaenol yn meddwl y buasech chi fel arfer yn cael Lwfans Gofalwyr os na fuasech chi'n barod yn cael budd-dal arall.